

Gwedd

Arglwydd Dduw, mae bara'r bywyd gennyt ti ar gyfer y newynog

a dŵr bywiol ar gyfer y sychedig.

Down yn newynog ac yn sychedig am dy air,

gydag awydd i wybod dy ewyllys

ac i garu gyda'th gariad diamod di.

Helpa ni i gael ein bwydo ac i ddysgu gennyt ti.

Amen.

Elias ar Fynydd Horeb (1 Brenhinoedd 19:1-18)

Mynegodd Ahab i Jesebel y cwbl yr oedd Elias wedi ei wneud, a'i fod wedi lladd yr holl broffwydi â'r cleddyf. Yna anfonodd Jesebel negesydd i ddweud wrth Elias, "Fel hyn y gwnelo'r duwiau i mi, a rhagor, os na fyddaf wedi gwneud dy einioes di fel einioes un ohonynt hwy erbyn yr amser hwn yfory." Ofnodd yntau a dianc am ei einioes nes dod i Beerseba, oedd yn perthyn i Jwda. Gadawodd ei was yno, ond aeth ef yn ei flaen daith diwrnod i'r anialwch. Pan oedd yn cymryd seibiant dan ryw bren banadl, deisyfodd o'i galon am gael marw, a dywedodd, "Dyma ddigon bellach, O ARGLWYDD; cymer f'enioes, oherwydd nid wyf fi ddim gwell na'm hynafiaid." Ond wedi iddo orwedd a chysgu dan ryw bren banadl, dyna angel yn ei gyffwrdd ac yn dweud wrtho, "Cod, bwyta." A phan edrychodd, wrth ei ben yr oedd teisen radell a ffiolaid o ddŵr; a bwytaodd ac yfed ac ailgysgu. Daeth yr angel yn ôl eilwaith a'i gyffwrdd a dweud, "Cod, bwyta, rhag i'r daith fod yn ormod iti." Cododd yntau a bwyta ac yfed; a cherddodd yn nerth yr

ymborth hwnnw am ddeugain diwrnod a deugain nos, hyd at Horeb, mynydd Duw.

Yno aeth i ogof i aros, a daeth gair yr ARGLWYDD ato gan ddweud, "Beth a wnei di yma, Elias?" Dywedodd yntau, "Bûm i'n selog iawn dros ARGLWYDD Dduw y Lluoedd; cefnodd yr Israeliaid ar dy gyfamod, a bwrw d'allorau i lawr, a lladd dy broffwydi â'r cleddyf; myfi'n unig sydd ar ôl, ac y maent yn ceisio f'einioes innau." Yna dywedwyd wrtho, "Dos allan a saf ar y mynydd o flaen yr ARGLWYDD." A dyma'r ARGLWYDD yn dod heibio. Bu gwynt cryf nerthol, yn rhwygo mynyddoedd a dryllio creigiau, o flaen yr ARGLWYDD; nid oedd yr ARGLWYDD yn y gwynt. Ar ôl y gwynt bu daeargryn; nid oedd yr ARGLWYDD yn y ddaeargryn. Ar ôl y ddaeargryn bu tân; nid oedd yr ARGLWYDD yn y tân. Ar ôl y tân, distawrwydd llethol. Pan glywodd Elias, lapiodd ei wyneb yn ei fantell a mynd i sefyll yng ngenau'r ogof; a daeth llais yn gofyn iddo, "Beth a wnei di yma, Elias?" Atebodd yntau, "Bûm i'n selog iawn dros ARGLWYDD Dduw y Lluoedd; cefnodd yr Israeliaid ar dy gyfamod, a bwrw d'allorau i lawr, a lladd dy broffwydi â'r cleddyf; myfi'n unig sydd ar ôl, ac y maent yn ceisio f'einioes innau." Dywedodd yr ARGLWYDD wrtho, "Dos yn ôl i gyfeiriad anialwch Damascus, a phan gyrhaeddi, eneinia Hasael yn frenin ar Syria, a Jehu fab Nimsi yn frenin ar Israel, ac Eliseus fab Saffat o Abel-mehola yn broffwyd yn dy le. Pwy bynnag fydd yn dianc rhag cleddyf Hasael, bydd Jehu yn ei ladd; pwy bynnag fydd yn dianc rhag cleddyf Jehu, bydd Eliseus yn ei ladd. Ond gadawaf yn weddill yn Israel y saith mil sydd heb blygu glin i Baal, na'i gusanu."

Myfyrdod

Mae hanes y proffwyd Elias yn dilyn ei fuddugoliaeth fawr dros broffwydi Baal ar fynydd Carmel yn hollol groes i'r disgwyl. Gellid dychmygu y byddai ar ben ei ddigon ac yn llawn gorfoledd ond cawn ef yn ofnus a digalon, ac ar ffo oherwydd bygythiad y frenhines Jesebel i'w lofruddio. Yn yr anialwch y mae'n cymryd seibiant a'i ddigalondid bron a'i lethu. Ond daw angel ato ddwywaith gyda bwyd a diod, ac ar sail yr ymborth hwnnw aiff yntau yn ei flaen nes cyrraedd mynydd Horeb.

Ar fynydd Horeb mae Elias yn dod yn ymwybodol o bresenoldeb Duw, nid mewn storm na thân na daeargryn ond yn dilyn distawrwydd llethol. Er gwaethaf ei ddigalondid a'r ffaith iddo anobeithio'n llwyr caiff wybod bod gan Dduw fwy o waith iddo'i gyflawni. Roedd i eneinio 'Hasael yn frenin ar Syria, a Jehu fab Nimsi yn frenin ar Israel, ac Eliseus fab Saffat o Abel-mehola yn broffwyd yn dy le'.

Gallwn ond dychmygu ei wewyr. Go brin y byddai ufuddhau i'r gorchymyn yn ateb yr hyn oedd yn pwyso ar ei feddwl, sef bygythiad Jesebel i'w ddifa. Ni fyddai penodi brenhinoedd a phroffwyd newydd ychwaith yn troi'r genedl yn ôl at yr Arglwydd ar fyrder ac yn dadwneud y gwrthgiliad yr oedd Elias mor ymwybodol ohono. Ond cynllun Duw oedd hwn, ac mae Elias yn cael ei alw i helpu i'w wireddu, er na fyddai iddo ef ei hun, yn ôl pob golwg, fawr mwy na hynny o ran ynddo... *'yn broffwyd yn dy le'*.

Heddiw y mae'n hawdd iawn teimlo'n ddigalon am gyflwr Cristnogaeth yng Nghymru, ond geilw ffydd arnom ninnau i wneud ein rhan a gadael y cynllun mawr i Dduw.

Paid ag ofni'r anawsterau,
paid ag ofni'r brwydrau chwaith;
paid ag ofni'r canlyniadau:
cred yn Nuw a gwna dy waith.
Cei dy farnu, cei dy garu,
cei dy wawdio lawer gwaith;
Na ofala ddim am hynny:
cred yn Nuw a gwna dy waith.

C.Ff. 737 NORMAN MACLEOD, 1812-72 cyf. BEN DAVIES, 1864-1937

Gweddi o addoliad

Dduw heb ffiniau,
diolch i ti na allwn dy ffrwyno,
a'th fod yn ddiidiwedd a bob amser yn meddwl am rywbeth i'w
wneud!
Molwn ac addolwn di.
Pan fyddwn yn meddwl ein bod wedi gweithio popeth allan,
rwyd ti yn ein synnu!
Dduw graslon, rwyd ti wedi ein bendithio yn wir.
Diolch ein bod yn gwybod, wrth i ni blygu'n wylaidd wrth dy
orsedd,
mai dim ond ti all ddiwallu ein hanghenion.
Mawl fo i ti, Arglwydd Dduw.
Amen.

Emyn – 'Tyred Iesu i'i Anialwch' (C.Ff. 730, Blaenwern)

Tyred, Iesu, i'r anialwch,
at bechadur gwael ei lun,
ganwaith ddrysodd mewn rhyw rwydau -
rhwydau weithiodd ef ei hun;
llosg fieri sydd o'm cwmpas,
dod fi i sefyll ar fy nhraed,
moes dy law, ac arwain drosodd
f'enaidd gwan i dir ei wlad.

Manna nefol sy arna'i eisiau,
dwr rhedegog, gloyw, byw
sydd yn tarddu o dan riniog
temel sanctaidd, bur fy Nuw;
golchi'r aflan, cannu'r duaf,
gwneud yr euog brwnt yn lân;
ti gei'r clod ryw fyrdd o oesoedd
wedi i'r ddaear fynd yn dân.

Ar dy allu 'rwy'n ymddiried:
mi anturiaf, doed a ddêl,
dreiddio drwy'r afonydd dyfnion,
mae dy eiriau oll dan sêl;
fyth ni fetha a greddo ynot,
ni bu un erioed yn ôl;
mi â 'mlaen, a doed a ddelo,
graig a thyle, ar dy ôl.

WILLIAM WILLIAMS, 1717-91

Ctrl a Chlic

<https://youtu.be/HuN-eXimmyk?list=PLgljwsI4TEebjirl1dRvm10o3zpcKM6y->

Gweddi i gloi

Diolch i ti, Arglwydd, am gredu ynom ni,
am weld tu draw i'n tu allan
a gwybod pwy, mewn gwirionedd, ydym ni tu mewn.
Diolch i ti am roi i ni y cyfan y mae ei angen arnom i wneud dy
waith.

Amen.

Gweddiau oddi ar wefan Roots Ecumenical Partnership